**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**

**PWNC:** **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 25 IONAWR 2022 DYDD MAWRTH, 25 IONAWR 2022**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: T. EDWARDS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: S. Healy (Is-gadeirydd)
P. Baldwin
D. Davies
D. Hancock
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
J. Millard
M. Moore
J. C. Morgan
K. Rowson
B. Summers
S. Thomas
H. Trollope
L. Winnett
M. Veale

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Datganodd y Cynghorydd B. Summers fuddiant yn y dilynol:<br><br>Eitem Rhif 7 Archwilio Cymru – Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2021 Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent *(Silent Valley Waste Services Cyf.)* | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2022.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **DALEN WEITHREDU – 7 RHAGFYR 2021**<br><br>Nid oedd unrhyw gamau gweithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2021. | |
| **No. 6** | **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd Proffesiynol Archwilio mewnol.<br><br>Cyflwynodd yr Arweinydd Proffesiynol Archwilio Mewnol yr adroddiad sy'n diweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd ar y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2021 i 31 Rhagfyr 2021.<br><br>Caiff y gweithgareddau ar gyfer y cyfnod eu nodi yn Atodiad A ac maent yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau o'r adroddiadau archwilio a gynhyrchwyd yn y cyfnod, yn cynnwys barn archwilio ffurfiol lle'n briodol. Cyflwynir data perfformiad ar gyfer yr Adran yn Atodiad B, a dangosir y graddiad a roddwyd yn ystod y cyfnod a gorchudd canran pob Adran yn Atodiad C a D.<br><br>Mewn ymateb i gwestiynau am absenoldeb salwch cadarnhaodd y Swyddog mai dim ond at yr Adran Archwilio Mewnol y mae'r data | |

| | | |
|---|---|---|
| | yn cyfeirio. Dywedodd y bu'r Tîm yn ffodus drwy fod â fawr iawn o salwch cysylltiedig â Covid yn ystod y cyfnod a bod y Tîm wedi gweithio'n rhagorol drwy gydol y pandemig.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn nodi'r canfyddiadau o fewn yr Atodiadau a'r cynnydd ar weithgareddau ar gyfer y cyfnod 1 Hydref 2021 i 31 Rhagfyr 2021. | |
| **No. 7** | **<u>ARCHWILIO CYMRU – CRYNODEB ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2021 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>Cyflwynwyd y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau newydd i'r Pwyllgor. Roedd wedi dechrau ar y swydd ddechrau mis Ionawr, sy'n cynnwys rôl Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, ac mae'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Pwyllgor yn y blynyddoedd i ddod.<br><br>Cyflwynodd y Swyddog Grynodeb Archwilio Blynyddol 2021 Archwilio Cymru ar gyfer Blaenau Gwent (Atodiad 1) sy'n crynhoi'r gwaith a wnaed ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf ym mis Ebrill 2021. Nid yw Archwilio Cymru wedi codi unrhyw faterion sylweddol ac mae'r adroddiad yn amlygu rhai cryfderau yn y ffordd y mae'r Cyngor wedi defnyddio data i lywio ei ymateb i bandemig Covid a chefnogi'r broses cynllun adferiad. Mae'r adroddiad hefyd yn sôn fod cynllunio ariannol o fewn y Cyngor wedi gwella.<br><br>Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth ar astudiaethau lleol a chenedlaethol gan Archwilio Cymru yn y flwyddyn ddiwethaf a thynnodd sylw at ychydig o'u gwaith arfaethedig. Dywedodd y Swyddog y cynhelir archwiliad dilynol o Ddiogelu Corfforaethol yn y gwanwyn ac y disgwylir derbyn y cylch gorchwyl ar gyfer yr archwiliad hwnnw ym mis Chwefror.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y ffeithiau allweddol ar dudalen 28 yr adroddiad a gofynnodd am fanylion pellach ar chwe maes amddifadedd. Dywedodd y Swyddog y byddai'n rhoi'r wybodaeth hon i bob Aelod.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn derbyn adroddiadau yn y dyfodol gan | |

| | | |
|---|---|---|
| | Swyddfa Archwilio Cymru. | |